

DATGANIAD SEFYLLFA RHEOLEIDDIOL RHEOLIADAU YMBELYDREDD ÏONEIDDIO (CYSYLLTIAD MEDDYGOL) AR DOMOGRAFFEG GYFRIFIADUROL (CT) YN DEFNYDDIO DARLIFIAD I'R YMENNYDD AT DDIBENION GWERTHUSO CLINIGOL

Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd NHS England ei Fodel ar gyfer Gwasanaeth Strôc Cenedlaethol a chyflwynodd y llwybr delweddu strôc optimaidd cenedlaethol (NOSIP).

Mewn ymateb i hyn, cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Radiolegwyr (RCR) ganllawiau ym mis Gorffennaf 2024 – 'RCR statement on cerebral perfusion CT requesting and reporting for Radiology departments'. Mae awdurdodau gorfodi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol (IR(ME)R) perthnasol yn croesawu'r canllawiau hyn er mwyn sicrhau mynediad diogel ac amserol i ddiagnosis a thriniaethau. Datblygwyd y datganiad sefyllfa rheoleiddiol hwn mewn ymateb i nifer o ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r llwybr delweddu hwn.

Ar gyfer y gwasanaethau hynny sy'n sefydlu NOSIP, hoffai awdurdodau gorfodi IR(ME)R dynnu sylw at ystyriaethau rheoleiddiol ar draws y llwybr delweddu cyfan i gleifion:

1. Y cyflogwr o dan IR(ME)R sy'n gyfrifol am roi llwybr delweddu ar waith yn ddiogel. Bydd angen sicrwydd ar y cyflogwr fod pob un o elfennau'r llwybr delweddu wedi cael ei hystyried.
2. Dylid diffinio cyfrifoldebau'r holl ddeiliaid dyletswydd yng ngweithdrefnau'r cyflogwr, gan gynnwys yr atgyfeiriwr o dan IR(ME)R, yr Ymarferydd o dan IR(ME)R a gweithredwyr o dan IR(ME)R. Rhaid i bob deiliad dyletswydd unigol ddeall ei gyfrifoldebau.
3. Prif rôl ymarferwyr o dan IR(ME)R yw cyfiawnhau cysylltiadau unigol, er mwyn ystyried anfanteision posibl y cysylltiad o gymharu â'r manteision net posibl i'r unigolyn. Dylai gweithdrefnau'r cyflogwr ddisgrifio sut y caiff y broses ar gyfer cyfiawnhau atgyfeiriadau ar y llwybr delweddu hwn ei chwblhau a sut y darperir tystiolaeth ohoni. Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod unrhyw ofynion ar gyfer hawl briodol i awdurdodi o dan ganllawiau awdurdodi yn gadarn.
4. Dylid rhoi hyfforddiant priodol i weithredwyr â hawliau sy'n gyfrifol am yr agweddau ymarferol ar y cysylltiad a dylai fod protocolau clinigol manwl ar gael i'w cefnogi, y mae'n ofynnol iddynt eu dilyn.
5. Yn unol ag IR(ME)R, ystyr gwerthuso clinigol yw dehongli'r wybodaeth sy'n deillio o gysylltiad, gan gynnwys y canlyniad a'i oblygiadau.
6. Os bydd y cyflogwr yn cadarnhau mai'r clinigydd sy'n atgyfeirio'r achos yw'r unigolyn mwyaf addas i gwblhau gwerthusiad clinigol o'r cysylltiad, rhaid i berson priodol rhoi hawl i'r unigolion hyn weithredu fel gweithredwr, a dylid nodi manylion y broses hon yng ngweithdrefnau'r cyflogwr (Atodlen 2(b)).
7. Dylid pennu maes ymarfer priodol fanwl i gyd-fynd â'r hawl, gan ystyried y gofynion o ran hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant parhaus er mwyn dangos cymhwysedd. Mae'n bosibl y bydd angen ystyriaeth arbennig y tu allan i oriau gwaith arferol ac unrhyw ddarpariaeth wedi'i threfnu'n allanol o dan drefniadau cydweithio rhwng cyflogwyr.
8. Bydd angen cofnodi unrhyw hyfforddiant ar y feddalwedd a ddefnyddir i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau fel rhan o werthusiad clinigol er mwyn dangos cymhwysedd cyn rhoi hawliau. Byddai hyn yn ychwanegol at yr hyfforddiant a'r cymhwysedd gofynnol ar gyfer cynnal gwerthusiadau clinigol.
9. Dylai Atodlen 2(j) gweithdrefn y cyflogwr nodi ble y caiff y gwerthusiad clinigol o ddarlifiad CT ei gofnodi; diffinio'r meini prawf allweddol sy'n rhan o'r gwerthusiad clinigol yn glir; disgrifio'r trefniadau a'r llinellau amser ar gyfer unrhyw adroddiadau radioleg ar gyfer

darlifiad CT. Lle y caiff deallusrwydd artiffisial (AI) ei ddefnyddio i helpu i gynnal gwerthusiad clinigol cyflym o'r sgan darlifiad CT, dylai gweithdrefn y cyflogwr nodi'n glir sut mae hyn yn cyfrannu at y gwerthusiad clinigol ac a oes angen adolygu'r mathau hyn o gysylltiadau eto fel rhan o adroddiad radioleg.

10. Unrhyw ofynion o ran sicrhau bod adroddiadau a wneir ar y pryd yn hygyrch os bydd y claf yn symud rhwng gwasanaethau yn ystod ei lwybr gofal.
11. Cydnabyddir y gall y llwybr strôc aciwt gynnwys archwiliadau eraill sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio a dylid ystyried gofynion gwerthuso clinigol yr archwiliadau hyn hefyd a'u nodi'n briodol yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.
12. Mae IR(ME)R yn ei gwneud yn ofynnol i'r feddalwedd a ddefnyddir fel cymorth uniongyrchol wrth gynnal gwerthusiad clinigol gael ei chadw o fewn storfa feddalwedd ac yn nodi y dylid pennu meini prawf perfformiad derbyniol a rhoi unrhyw fesurau ar waith i wella cyfarpar annigonol neu ddiffygiol.
13. Gellir defnyddio meddalwedd strôc sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) wedi'i ardystio â nod CE yn unol â'i diben bwriadedig ar gyfer llwybrau gofal strôc ischaemig aciwt. Dylai'r cyflogwr a'r gweithredwyr fod yn ymwybodol o gyfyngiadau meddalwedd AI, unrhyw newidiadau yn sgil diweddariadau sylweddol a ffactorau eraill a allai effeithio ar berfformiad y feddalwedd.
14. Atgoffir cyflogwyr mai adnodd penderfynu cynorthwyol yw AI a bod yn rhaid iddynt ystyried sut gall y gweithredwyr sy'n gyfrifol am werthuso clinigol weld yr astudiaeth gyfan a'r holl ddelweddau sy'n gysylltiedig â'r cysylltiad er mwyn gwerthuso'r penderfyniad gan y feddalwedd AI. Yn unol â'r rheoliadau, ni ddylai gweithredwyr ddibynnu'n llwyr ar AI wrth ddehongli delweddau.